UGAEIC
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant | World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

# 20 mlynedd o Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) a datblygiad Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) yng Nghymru

Mae 20 mlynedd ers sefydlu UGAEIC yn nodi dau ddegawd o ddatblygu HIA fel arf hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau iachach a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Wedi'i sefydlu yn 2004. Mae UGAEIC wedi arwain y ffordd wrth alluogi integreiddio HIA i mewn i bolisi ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r llinell amser yn amlygu cerrig milltir, dogfennau, a chyhoeddiadau allweddol yn hanes UGAEIC ac arfer HIA yng Nghymru. Gan edrych i'r dyfodol, bydd UGAEIC yn parhau i hyrwyddo HIA ac Iechyd ym Mhob Polisi (HiAP), ac yn cefnogi cyrff cyhoeddus i roi rheoliadau HIA sydd ar y ffordd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ar waith. Mae rhagor o adnoddau a chanllawiau ar gael ar wefan UGAEIC.

- **2004** – **Sefydlu UGAEIC**
- **2005/6** – HIA Cloddio Glo Brig, Margam *(Saesneg yn unig)* – Asesiad o'r Effaith ar Iechyd dan arweiniad y gymuned
- **2006** – Cymru yn cynnal ei Chynhadledd HIA ryngwladol gyntaf
- **2006/7** – Datganiad Polisi Cynllunio Drafft - HIA wedi'i ystyried mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl)
- **2008** – Arweiniad ar arfarnu trafnidiaeth Cymru (WelTAG) (y diweddaraf yn 2024) – yn gorchymyn bod angen HIA ar gyfer pob prosiect rheilffyrdd a ffyrdd newydd yng Nghymru
- **2008** – HIA Strategaeth Wastraff Cymru *(Saesneg yn unig)* – yr HIA cyntaf i fynd i'r afael â'r sector gwastraff yn benodol
- **2009** – Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 2: Glo – Datgan bod angen HIA ar gyfer cloddio glo brig
- **2012** – Cyhoeddi Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol
- **2013** – Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd
- **2015** – Canllawiau Buddsoddi mewn Seilwaith GIG Cymru (diweddarwyd 2018) – HIAs yn cael eu gorchymyn ar gyfer pob adeilad newydd/ailddatblygiad ysbyty
- **2017** – Cyhoeddi Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA)
- **2017** – Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gwneud HIAs yn ofyniad statudol
- **2018** – Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10 - yn cynnwys HIA
- **2019** – Cyhoeddi Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd
- **2020** – Cyhoeddi Byd pandemig COVID-19 a thu hwnt: Effaith Gweithio Gartref ac Ystwyth ar Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru
- **2020** – HIA wedi'i gynnal ar y 'Polisi Aros Gartref a Chadw Pellter Cymdeithasol' yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19
- **2021** – Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) Cyhoeddi Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer
- **2021/22** – Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd: Trosolwg, Diogelwch Bwyd a Chymunedau Gwledig
- **2022** – Cyhoeddi Diogelu lles meddyliol cenedlaethau'r dyfodol: dysgu o COVID-19 ar gyfer y tymor hir
- **2022** – UGAEIC yn lansio Rhwydwaith Ymarfer Asesu'r Effaith ar Iechyd rhyngwladol
- **2023** – Cyhoeddi Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
- **2023** – Cynnal HIA ar Effaith Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) ar iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru
- **2023** – Cyhoeddi Traethawd PhD yn dwyn y teitl 'HIA as a tool for Health in All Policies (HiAP)' gan Liz Green.
- **2023/24** – Ymgynghoriad ar Reoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd Drafft Llywodraeth Cymru
- **2024** – Profion iechyd rhywiol hunan-weinyddol mewn carchar agored yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi
- **2024** – **Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn dathlu ugain mlynedd ers ei sefydlu**

ISBN 978-1-83766-506-8
© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.